



Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru) Adroddiad yr Uwch Gymedrolwyr Mehefin 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Gweithdrefnau

Asesiad dan Reolaeth

Mae'r gyfres hon wedi amlygu'r ffaith bod angen atgoffa canolfannau o'r gofynion ar gyfer cynnal asesiad dan reolaeth ar gyfer cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau.

- Rhaid i ganolfannau gyfeirio at ddogfen CBAC '**Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiad dan Reolaeth**' cyn cynnal unrhyw asesiad.
- Rhaid cynnal y 3 Her dan **amodau rheoledig** fel y nodir yn y **Llawlyfr Cyflwyno Uwch**.
- Hoffem atgoffa canolfannau bod rheolaethau penodol i **amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio ac adborth** ar gyfer pob tasg o'r asesiad.
- Mae peidio â chadw at y rheolau a bennwyd yn **gamymddwyn** a gallai canlyniadau'r canolfannau fod yn y fantol.
- Mae'r **defnydd o dempledi** i ddarparu strwythur yn **annerbiniol** a bydd yn cael ei drin fel **camymddwyn**.
- Unwaith y bydd tasg yn dechrau ni ellir darparu **unrhyw** wersi nac arweiniad ar wahân i'r hyn a nodir yn y rheolaethau.
- Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod gwaith yr ymgeiswyr yn cael ei gadw'n **ddiogel ac nad yw ymgeiswyr yn cael mynediad at eu gwaith** ar ôl cwblhau pob tasg.
- Unwaith y bydd y Project Unigol wedi'i gyflwyno, **ni ddylid** ei asesu na'i ddychwelyd at yr ymgeisydd i'w wella.

Mae **Llyfryn i Ymgeiswyr** newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer pob un o'r 4 cydran, a rhaid ei ddefnyddio ar gyfer cyfresi asesu'r dyfodol.

Cyflwyno marciau

Yn ystod y gyfres hon, gwelwyd bod 0 marc wedi'i fewnbynnu ar IAMIS unwaith eto. Atgoffir canolfannau bod **rhaid** defnyddio **A** am absennol os nad yw ymgeisydd wedi cyflwyno gwaith. Dim ond pan nad yw gwaith a gyflwynir yn deilwng o farc y dylid defnyddio 0 marc. Yn yr achos hwn, byddai disgwyl i'r Ganolfan dynnu'r ymgeisydd yn ôl.

Cyflwyno Gwaith drwy ddull e-gyflwyno

Dylid llongyfarch y canolfannau unwaith eto ar ba mor ddi-drafferth y cafodd y broses hon ei rheoli. Mae'r gwaith trefnu tystiolaeth ymgeiswyr yn parhau i wella ac mae hyn yn gwneud y broses gymedroli yn llawer haws.

Oherwydd bod pob cydran yn cael ei chyflwyno drwy ddull e-gyflwyno, nid yw gwaith anodi cefnogol yn ofynnol mwyach. Mewn llawer o achosion, mae anodi wedi cael effaith andwyol ar fformat a chyflwyniad gwaith ymgeiswyr. Nid ydym yn disgwyl i ganolfannau argraffu gwaith, ei anodi ac yna ei sganio. Gall canolfannau barhau i ddefnyddio taflen grynodedb i nodi sylwadau.

Hefyd, nid oes angen i ganolfannau lwytho i fyny **Briff yr Her** y mae ymgeisydd wedi'i ddefnyddio mwyach.

Rhaid i ganolfannau sicrhau'r canlynol:

- Cyfeirir at y canllawiau e-gyflwyno ar gyfer cyfanswm y dogfennau y dylid eu cyflwyno a sut i lwytho i fyny gwahanol fathau o dystiolaeth.
- Dylid rhoi gwaith yr ymgeiswyr mewn **ffolder zip** a'i labelu'n glir gyda **Rhif yr Ymgeisydd** ac **Enw'r Ymgeisydd**.
- Yr ymgeiswyr ddylai fod yn gyfrifol am drefnu a chadw gwaith yn eu ffolder eu hunain. Ni ddylent gynnwys nifer mawr o ddogfennau ar gyfer un dasg; dylid eu cyfuno'n briodol mewn trefn resymegol.
- Ar gyfer y tair Her, **rhaid** i ffolder yr ymgeisydd gynnwys Datganiad yr Ymgeisydd a Thaflen Amser wedi'u llenwi a'u llofnodi.
- Mae'r holl dystiolaeth ofynnol yn cael ei llwytho i fyny. Mae hyn yn cynnwys ffolderi'r ymgeiswyr a ddewiswyd yn y sampl, ynghyd â'r daflen asesu wedi'i llenwi a'i llofnodi ar gyfer pob ymgeisydd yn y sampl.

Cymedroli Mewnol

Yn y gyfres hon, gwelwyd nifer cynyddol o ganolfannau lle roedd aseswyr unigol wedi diwygio'r marciau. Mae hyn yn amlygu diffyg proses Gymedroli Mewnol o fewn y Ganolfan. Bu'n rhaid gwneud cais am y garfan gyfan i nifer o ganolfannau.

Mae problem hefyd o ran bod blaenlythrennau un aseswr wedi'u nodi ar gyfer pob ymgeisydd yn y garfan, ond ar ôl cymedroli, mae'n amlwg bod gwahanol aseswyr wedi bod yn gysylltiedig. Er mwyn lliniaru'r problem hon, ar y Llyfrynnau Ymgeiswyr newydd mae angen nodi enw'r aseswr, a rhaid i'r enw fod yr un fath â'r blaenlythrennau a gyflwynir ar IAMIS.

Project Unigol

Deilliant Dysgu 1

Nodi ffocws a chwmpas Project Unigol

Unwaith eto, cynigiodd yr ymgeiswyr amrywiaeth eang o deitlau diddorol ac atyniadol gan adlewyrchu eu diddordebau a'u llwybrau gyrfa. Roedd y rhan fwyaf o'r projectau yn ddarnau dilys a pherthnasol o waith ymchwil. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gosod eu teitlau fel cwestiynau, gan felly alluogi i gasgliadau clir a phenodol gael eu llunio. Roedd yn anodd wedyn i'r lleiafrif bach nad oedd wedi gwneud hynny i ddod i unrhyw gasgliadau gan fod eu ffocws yn rhy amhenodol.

Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn rhifo ac yn cysylltu'n uniongyrchol eu nodau a'u hamcanion, gan wneud defnydd effeithiol o'r berfau gweithredu a argymhellwyd. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf wedi strwythuro dilyniant i'w nodau a'u hamcanion, gan symud o archwilio ac ymchwilio i werthuso er mwyn dod i gasgliad. Roedd dealltwriaeth gliriach o'r gwahaniaeth rhwng nodau, gosodiadau cyffredinol yn ymwneud â'r targedau cyffredinol, a'r amcanion, y camau unigol y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn cyrraedd y nodau. Roedd yr ymgeiswyr hynny na ddefnyddiodd ferfau gweithredu yn y strwythur i'w nodau a'u hamcanion yn dal i allu eu cysylltu, ond nid oedd y dilyniant mor eglur. Cyflwynodd nifer bach o ymgeiswyr amcanion a oedd yn ymwneud yn fwy â methodoleg e.e. ymchwilio i'r wybodaeth oddi ar y Rhynggrwyd nad oedd wir yn nodi dilyniant rhesymegol yn y meysydd ymchwil ac a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i ateb yr amcan yn y prif ran a dod i gasgliad.

Cynigiodd lleiafrif bach ddull oedd yn fwy seiliedig ar draethawd lle'r oedd nodau ac amcanion yn ddealliedig, ac felly ni enillwyd marciau uchel.

Deilliant Dysgu 2

Dethol a chynllunio dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwilio

Cyflwynodd nifer sylweddol o ymgeiswyr eu rhesymegau nod wrth nod, gan roi disgrifiadau a chyfiawnhad penodol a manwl o'r dulliau a ddewiswyd ganddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cynnig cydbwysedd da o ran dulliau cynradd ac eilaidd. Roedd yn siomedig pan oedd ymgeiswyr cryf yn canolbwyntio y rhan fwyaf o'u rhesymeg ar ddulliau cynradd ar draul dulliau eilaidd gan gyfyngu eu gallu i ennill marciau yn y band uchaf.

Roedd lleiafrif bach wedi camddeall y term rhesymeg gan roi eu rhesymau dros ymgymryd â'r ymchwil yn hytrach na chanolbwyntio ar eu dewis o ddulliau. Mae'r meini prawf yn nodi'n glir y dylai'r rhesymeg "ddisgrifio dulliau ymchwil, adnoddau a deunyddiau perthnasol...". Dylai ymgeiswyr sy'n cynhyrchu arteffact sicrhau eu bod yn cynnwys yn eu methodoleg sut y byddent yn ymchwilio i'r deunyddiau posibl sydd eu hangen i gynhyrchu'r arteffact.

Deilliant Dysgu 3

Dethol, coladu, cyfeirio ac asesu hygredded gwybodaeth a data rhifyddol

Yn gyffredinol, mae llyfryddiaethau'n mynd yn fyrrach, yn fwy penodol ac yn fwy ystyrlon. Prin iawn oedd yr enghreifftiau o ffynonellau rhy hir a digyswllt. Roedd y rhan fwyaf o ffynonellau'n ddigon cymhleth ar gyfer Safon Uwch ac yn briodol ar gyfer yr ymchwil.

Holiaduron oedd y math mwyaf cyffredin o ymchwil cynradd ac roedd eu cynllun yn amrywiol. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o faterion moesegol wrth gynllunio eu holiadur i sicrhau nad ydynt yn gofyn cwestiynau uniongyrchol am destunau sensitif neu ymddygiad gwyrddoedig / troseddol. Nid yw dweud bod yr holiaduron yn ddienw yn datrys y problemau hyn.

Nid yw llawer o holiaduron yn rhoi opsiynau addas i gynhyrchu data rhifiadol digon cymhleth i fodloni anghenion DD4. Gwnaeth nifer cynyddol o ymgeiswyr ddefnydd effeithiol o gyfweiliadau ond mae lle o hyd i ymgeiswyr wneud mwy o ddefnydd o ddulliau eraill o gasglu gwybodaeth gynradd.

Mae ymgeiswyr yn parhau i ganolbwyntio ar amrywiaeth gyfyngedig o agweddau ar hygyrdd ffynonellau yn hytrach na'r mater mwyaf priodol ar gyfer pob ffynhonnell. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn trafod cryfderau a gwendidau'r holl ffynonellau a ddewiswyd. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn cyfyngu eu ffocws i duedd a/neu ddibynadwyedd. Roedd y defnydd o lyfryddiaeth wedi'i hanodi yn ymddangos fel pe bai'n arwain yn fwy aml at y dull cyfyngedig hwn.

Roedd yn braf nodi bod gwerthuso ffynonellau yn ymddangos fwyfwy yn y rhesymeg – cyfiawnhau'r dewis, ac yn y gwaith dadansoddi a thrafod safbwyntiau drwyddo draw ym mhrif ran y projectau.

Deilliant Dysgu 4

Dadansoddi'r data rhifiadol a'u harddangos gan ddefnyddio technegau digidol

Y deilliant dysgu hwn yw'r gwannaf o hyd i lawer o ymgeiswyr ond roedd rhywfaint o welliant ers y gyfres flaenorol. Mae canolfannau'n amlwg yn canolbwyntio ar ddatblygu safon y gwaith ar gyfer y deilliant dysgu hwn. Mae defnyddio a thrin setiau mwy o ddata eilaidd yn fwy cyffredin. Mae lefel uwch o ddadansoddi a chynhyrchu graffiau gwreiddiol wedi bod yn ffordd fwy llwyddiannus i ymgeiswyr ennill marciau yn y band uchaf. Byddai wedi bod o fantais i'r ymgeiswyr esbonio'n fwy clir pam yr oeddent wedi llunio'r graff penodol hwnnw a nodi mai eu gwaith eu hunain ydoedd. Nid oedd bob amser yn eglur os oedd hyn yn wir. Roedd llai o achosion o gyfrifiadau heb gyd-destun o ran yr ymchwil.

Mae nifer sylweddol o ymgeiswyr medrus yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol neu'n gadael pethau allan wrth gyflwyno data e.e. labelu echelin, teitl graffiau.

Mae rhai ymgeiswyr yn colli cyfleoedd i ddangos sgiliau digidol drwy gyflwyno data rhifiadol, yn enwedig wrth ddefnyddio holiaduron ar-lein. Maent yn cyflwyno graffiau sy'n cael eu paratoi gan y darparwr gwasanaeth ar-lein ac mae'r rhain ar y cyfan yn fwy sylfaenol o ran cynllun ac yn cyfyngu ar ddadansoddi soffistigedig.

Er mai'r deilliant dysgu hwn sydd fwyaf tebygol o gael ei asesu'n hael, mae'n braf adrodd bod asesiad y ganolfan yn fwy priodol y gyfres hon.

Deilliant Dysgu 5

Cyfosod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau

Mae ansawdd y cyfosod a'r trafod yn parhau i fod yn gryfder. Y deilliant dysgu hwn yn aml yw'r elfen gryfaf i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn llwyddo i gynnwys amrywiaeth o safbwyntiau, ond mae rhai teitlau'n fwy cyfyngol nag eraill o ran cefnogi'r gofyniad hwn ac yn addas ar gyfer dull mwy disgrifiadol, gan felly gyfyngu ar gyflawniad. Dylai ymgeiswyr gofio'r testun a'r deunydd sydd ar gael i ymdrin ag amrywiaeth o safbwyntiau amrywiol i'w dadansoddi. Cafwyd rhai enghreifftiau rhagorol o ddefnyddio gwybodaeth ac o ddyfnder dealltwriaeth o destunau cymhleth.

Deilliant Dysgu 6

Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad

Roedd asesu'r deilliant dysgu hwn yn fwy priodol ar y cyfan y gyfres hon. Gwelwyd rhai enghreifftiau o haelioni sylweddol. Mae'n werth nodi y dylid gwneud "defnydd effeithiol o sgiliau a thechnegau cymhleth priodol" a defnyddio iaith a therminoleg "gywir, priodol ac effeithiol" i gynhyrchu Project Unigol o "ansawdd rhagorol" h.y. dylai'r adroddiad fod yn addas ar gyfer ei gyhoeddi ac yn arteffact addas i'r pwrpas. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, ni ellir rhoi marciau band 3 i'r rhai sydd wedi gwneud camgymeriadau syml drwyddo draw (camgymeriadau sillafu, tŵn anffurfiol, defnyddio technegau a sgiliau llai cymhleth).

Ni ddylid dyfarnu marciau yn y band uchaf i ymgeiswyr sy'n mynd heibio'r terfyn geiriau yn sylweddol gan fod llunio Project Unigol o fewn 5,000 o eiriau yn sgil cymhleth.

Deilliant Dysgu 7

Llunio barn a dod i gasgliadau

Cyflwynodd yr ymgeiswyr cryfaf eu casgliadau terfynol nod wrth nod gan sicrhau ffocws a manylder a dod i gasgliadau trwy gydol y drafodaeth/dadansoddiad ym mhrif ran y projectau. Wrth ddod i gasgliadau, mae nodi nodau ac amcanion realistig a chyraeddadwy yn hollbwysig – ni lwyddodd nifer o ymgeiswyr i ddod i gasgliad dilys a rhesymegol oherwydd natur amwys neu rhy uchelgeisiol eu nodau cychwynnol.

Dylai casgliadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ond pan roedd cwrpas yr ymchwil yn rhy eang, nid oedd ymgeiswyr yn gallu gwneud hyn; er enghraifft, wrth archwilio dylanwad y cyfryngau ar ymddygiad. Byddai chwilio am farn pobl ar y cyfryngau neu'r sylw yn y cyfryngau ar destun penodol yn ffordd fwy realistig a chyraeddadwy o ymchwilio i'r testun hwn. Gallai dull o'r fath gynhyrchu data empirig i'w dadansoddi.

Roedd ychydig o ymgeiswyr wedi rhoi sylw i'w llwyddiant wrth gwblhau'r amcanion yn hytrach na dod i gasgliadau rhesymegol. Yng nghyd-destun y cyfrif geiriau, mae hwn yn faes diangen.

Dylid rhoi marciau yma am roi crynodeb cyffredinol o'r ymchwil a'r canfyddiadau. Cafodd crynodebau eu cynnwys gyda gwahanol raddau o lwyddiant. Byddai ymgeiswyr yn elwa ar gael mwy o eglurder ynghylch beth yw crynodeb a'i bwrpas. Mae'n werth nodi nad yw'r crynodeb wedi'i gynnwys yn y cyfrif geiriau.

Deilliant Dysgu 8

Gwerthuso ei berfformiad ei hun wrth reoli Project Unigol

Cafwyd rhai enghreifftiau ardderchog o ymgeiswyr yn gwerthuso eu perfformiad eu hunain gydag ymresymu dilys ac wedi'i gyfiawnhau ar gyfer eu sylwadau. Yn yr ymatebion cryfaf, ystyriwyd pob un o'r saith maes sgil yn ei dro, gan roi disgrifiad manwl o'u perfformiad eu hunain yng nghyd-destun llunio'r Project Unigol.

Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr o hyd yn defnyddio ffocws amhriodol; disgrifio eu llwyddiant wrth gwblhau'r Project Unigol yn hytrach na rhoi sylw i'r sgiliau sy'n ofynnol i'w gwblhau, neu ystyried eu ffynonellau yn hytrach na chanolbwyntio ar y sgiliau.

Her Menter a Chyflogadwyedd

Deilliant Dysgu 1 – Gallu cymhwyso Creadigrwydd ac Arloesedd

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn gallu perfformio'n dda yn erbyn y Deilliant Dysgu hwn. Mae ymgeiswyr yn dod o hyd i ymatebion llawer mwy dychmygus a chreadigol i Friffiau Her nag mewn cyfresi blaenorol. Nid yw ymatebion dychmygus a chreadigol wedi'u cyfyngu i gynhyrchu syniadau yn unig, ond hefyd i enwau cynnyrch a gwasanaeth, ynghyd â dyluniad, logos, is-benawdau a gweithgaredd hyrwyddo cysylltiedig, er enghraifft. Mae ymgeiswyr hefyd yn dangos eu sgiliau creadigol yn fwy effeithiol yn y modd y maent yn cyflwyno eu hymatebion i bob tasg.

Mae tudalen 15 o'r Llawlyfr Cyflwyno ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn nodi union fanylion y sgîl hwn. Gellir dangos creadigrwydd ac arloesi ym mhob un o'r tasgau sy'n rhan o'r briff. Ar gyfer Tasg 1, gellid dangos creadigrwydd ac arloesi yn y ffordd y caiff y portread cryno ei ddatblygu a'i gyflwyno. Yn aml, roedd tystiolaeth bod archwiliadau sgiliau wedi'u cynnal yng ngwaith yr ymgeiswyr, ond nid oes angen hyn. Nid oes rhaid i ymgeiswyr gynnwys eu harchwiliadau yn y dystiolaeth a gyflwynir. Y sgîl o gyfuno'r dystiolaeth o'r archwiliadau i greu dogfen un ochr A4 sy'n ymwneud â 'hunanhyrwyddo' – (h.y. portread cryno) sydd ei hangen. Felly, gellid annog ymgeiswyr i ddefnyddio mwy o dechnegau llythrennedd digidol wrth sicrhau bod eu portreadau cryno yn sefyll allan. Anogir ymgeiswyr hefyd i ystyried pa wybodaeth i'w chynnwys yn eu portread cryno fydd yn fwyaf tebygol o gefnogi hunanhyrwyddo. Mewn rhai achosion, roedd y cynnwys naill ai'n amherthnasol neu'n mynd yn groes i'r cysyniad o hunanhyrwyddo. Gallent hefyd ddangos eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy rannu eu portread cryno ar ffurf electronig. Serch hynny, mewn rhai enghreifftiau, cynhyrchodd yr ymgeiswyr bortreadau cryno o ansawdd uchel.

Mae tasg 2 yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr ddangos eu sgiliau creadigrwydd ac arloesi wrth gynhyrchu, dadansoddi a gwerthuso syniadau a chyflwyno ymatebion priodol ac effeithiol. Yna, gall y syniad a ddewiswyd fod yn destun mwy o greadigrwydd ac arloesi o ran ei enw, dyluniad a gweithgaredd hyrwyddo cysylltiedig, er enghraifft. Ni ddylai canolfannau ganiatáu i ymgeiswyr ddefnyddio templedi cynlluniau busnes. Nid yw'r Her hon yn ymwneud â dechrau busnes; yn hytrach, mae'n ymwneud â meddwl am ymateb arloesol i friff. At hynny, mae templedi cynlluniau busnes yn ffrwyno cyfleoedd i arloesi a chreadigrwydd, yn ogystal â sgiliau eraill fel rhifedd a llythrennedd digidol.

Mae nifer o ffyrdd y gellir rhoi cynhyrchu a dewis ar waith gydag enghreifftiau fel myfyrio'n feddwl agored, diagramau corryn, matricesau penderfynu a dadansoddiadau SWOT a oedd i'w gweld yn ystod y gyfres hon; ond dylid annog ymgeiswyr i ddewis eu dulliau eu hunain. Yn ogystal, dylid hefyd annog ymgeiswyr i ddangos canfyddiadau eu menter arloesi mewn ffordd greadigol, a allai hefyd gefnogi llythrennedd digidol wrth ddefnyddio dulliau electronig i gyflwyno canfyddiadau. Roedd ymatebion rhai ymgeiswyr yn gwneud hyn mewn ffordd hynod effeithiol ac yn cael sgorau uchel am eu sgiliau llythrennedd digidol. Roedd rhai mentrau arloesedd yn effeithiol iawn, a gallent fod wedi cael eu creu a'u datblygu gan gyrff proffesiynol, a oedd yn galonogol iawn.

Deilliant Dysgu 2 – Deall Effeithiolrwydd Personol

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn gallu perfformio'n dda yn erbyn y Deilliant Dysgu hwn.

Mae Effeithiolrwydd Personol yn cynnwys archwilio ac ystyried datblygiad, rheoli eich rôl a'ch cyfrifoldebau a gwerthuso effeithiolrwydd personol y gellir eu dangos drwy gydol yr Her. Fel rhan o Dasg 2, mae angen rhoi sylw i sicrhau y gall ymgeiswyr ddangos yn amlwg eu bod wedi llwyddo i reoli eu hamser, gan ddefnyddio ymddygiad, sgiliau a pherthnasoedd gwaith priodol. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod hyn yn wir os bydd ymgeiswyr wedi ymateb i'r briff. Roedd y ffynonellau tystiolaeth a welwyd yn y gyfres hon yn cynnwys cynlluniau gweithredu a ffotograffau, ond gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mewn rhai ymatebion, roedd ymgeiswyr wedi cynnwys myfyrdod ar ffurf log ynglŷn â pha mor dda roeddent wedi rheoli eu hamser neu weithio gyda chyfoedion, oedd yn ddull gwerthfawr i ddangos effeithiolrwydd personol.

Fel rhan o Dasg 3, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynllunio taith er mwyn cyrraedd eu cyrchfan benodedig. Defnyddir y term 'Pasbort Cyrchfan'. Felly, dylai ymgeiswyr nodi 2 opsiwn a bwriedir i'r CV, y llythyr cais, datganiad personol UCAS, yr hysbysebion swydd ac ati fod yn berthnasol i'r opsiynau hynny a ddewiswyd. Disgwylir i ymgeiswyr ddisgrifio sgiliau, cymwysterau a nodweddion y cyrchfannau a ddewiswyd ganddynt ac ystyried eu set sgiliau bresennol, nodi bylchau ac ystyried sut y gellid ymdrin â nhw. Dylai'r sgiliau hyn fod mewn perthynas â'r sgiliau sydd eu hangen yn y cyrchfannau a ddewiswyd ganddynt, ac nid dim ond dadansoddiad yn erbyn set generig o sgiliau. Nid oedd y pwynt hwn wedi'i gynnwys yn rhywfaint o'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Dylid cynnal y pasbort cyrchfan fel gweithgaredd â ffocws yn hytrach na nifer o ffeiliau sy'n cynnwys CVs, hysbysebion swydd, ceisiadau a dadansoddiadau o sgiliau generig; yn hytrach, dylai'r dogfennau hyn fod yn gwbl berthnasol i'r 2 opsiwn a ddisgrifir ar ddechrau'r dasg hon. Hefyd, dylid annog ymgeiswyr i beidio torri a gludo nifer mawr o hysbysebion, er enghraifft.

Ni chaniateir defnyddio templedi. Ar y lefel hon, rhaid i ymgeiswyr fynd at bob tasg heb fframwaith.

Mae Tasg 4 yn cynnwys cynnal Cyflwyniad Myfyrdod Personol o ran y sgiliau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr Her. Mae'n gofyn i fyfyrwyr fyfyrar ar y sgiliau, y rhinweddau a'r priodweddau a ddangoswyd ganddynt drwy gydol yr Her, gan nodi enghreifftiau clir. Mewn rhai achosion, myfyriodd ymgeiswyr ar sgiliau roeddent wedi eu defnyddio yn y gweithle neu rywle arall. Neu, roeddent wedi myfyrio ar y canlyniadau a gynhyrchwyd wrth ymateb i'r tasgau, yn hytrach na'r sgiliau a ddatblygwyd wrth ymateb i'r Her. Fodd bynnag, bwriad penodol y ffocws yw bod yn fyfyrdd yn seiliedig ar gwblhau'r her. Byddai'r myfyrdod hwn hefyd yn cynnig cyfle naturiol i ddangos sgiliau llythrennedd digidol. Mewn rhai achosion, roedd tystiolaeth ar goll mewn ymateb i Dasg 4. Dylai ymgeiswyr hefyd gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol a ddefnyddiwyd ganddynt wrth ymgymryd â'r dasg hon.

Deilliant Dysgu 3 – Gallu cymhwyso Rhifedd

Yn gyffredinol, roedd mwy o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau yn y bandiau uwch yn erbyn y Deilliant Dysgu hwn yn y gyfres hon, o'i gymharu â chyfresi blaenorol.

Mae tudalen 15 o'r Llawlyfr Cyflwyno ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn nodi enghreifftiau o'r mathau o bynciau y gall ymgeiswyr ymgysylltu â nhw er mwyn dangos rhifedd ar lefel uwch. Gellir dod o hyd i senarios yn neunyddiau Bagloriaeth Cymru yn www.wjecservices.co.uk. Bydd modd ennill sgorau o fewn y bandiau uwch ar sail cymhlethdod y dadansoddiad costau a gynhelir.

Yn ogystal, mae cyflawni Band 2 a Band 3 ar gyfer DD3 Rhifedd ar y matrices asesu Menter a Chyflogadwydd: (Tudalen 15 o Fanyleb Bagloriaeth Cymru Uwch) yn dibynnu ar ddatrys amrywiaeth o broblemau.

Er enghraifft, masnacheiddio cynnyrch arloesol (Tasg 2) a dadansoddiad costau personol (Tasg 3).

Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rai sgiliau rhifedd fel rhan o Dasg 2 a Thasg 3. Fodd bynnag, roedd diffyg cymhlethdod i'w weld yn y ddwy dasg. Roedd rhai ymgeiswyr wedi defnyddio cyfrifiannell gost ar-lein i gyfrifo costau prifysgol a morgais. Nid oedd hyn yn galluogi i ymgeiswyr ddangos eu sgiliau rhifedd gan fod y gyfrifiannell ar-lein wedi gwneud hyn ar eu rhan. Yn ogystal, roedd rhai ymgeiswyr wedi rhestru pris eitemau bwyd mewn nifer o archfarchnadoedd gwahanol. Eto, nid yw hyn yn dangos sgiliau rhifedd. Mae hefyd yn or-symbl o ran safon ar lefel uwch, a dylid ei osgoi oni bai bod haen arall o gymhlethdod yn cael ei hychwanegu. Yn ogystal, mae'r matrices asesu yn gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi a dehongli canlyniadau rhifiadol. Mewn nifer o ymatebion yn y gyfres hon, roedd dadansoddiad a dehongliad o'r canlyniadau yn dilyn cymhwyso'r technegau a'r dulliau rhifiadol ar goll. Dylai canolfannau ganolbwyntio ar faes dehongli cyfrifiadau rhifiadol. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi gwneud rhai cyfrifiadau eithaf soffistigedig gan ddefnyddio fformiwlâu, canrannau, cymedrau, a gwriad safonol, ond ni chafwyd esboniad ynghylch pam y dewiswyd y technegau hyn a sut y cyfrannodd hyn at eu hystyriaethau ariannol. Dylai canolfannau ganolbwyntio ar hyn cyn cyfleoedd cymedroli yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd rhai ymgeiswyr wedi cwblhau llyfrau gwaith yn dystiolaeth o'u gallu i gymhwyso rhifedd. Dylid osgoi hyn, gan y dylai ymgeiswyr eu hunain ddewis technegau rhifiadol addas i'w cymhwyso.

Yn ogystal, **ni chaniateir templedi** (gan gynnwys dogfennau Excel) ar y lefel hon oni bai eu bod yn safon diwydiant e.e. cofnodion cyfarfodydd. Rhaid i'r ymgeiswyr benderfynu eu hunain pa dechnegau a dulliau sy'n fwyaf priodol ar gyfer eu gofynion.

Fodd bynnag, cafwyd rhai ymatebion oedd wedi defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gyfateb â'u pwrpas. Argymhellir yn gryf defnyddio Excel gan y bydd hyn yn caniatáu i ymgeiswyr arddangos eu gallu i lunio fformiwlâu wrth wneud cyfrifiadau, ac mae hefyd yn cefnogi sgiliau llythrennedd digidol.

Deilliant Dysgu 4 – Gallu cymhwyso Llythrennedd Digidol

Yn y gyfres hon, perfformiodd llawer o ymgeiswyr yn dda yn erbyn y Deilliant Dysgu hwn, a llwyddwyd i ennill marciau Band 2 a Band 3.

Gellir ystyried bod tair elfen yn gysylltiedig â llythrennedd digidol. Yn gyntaf, trefnu, storio, rheoli, rhannu a diogelu gwybodaeth electronig. Yn ail, y gallu i ddefnyddio technegau digidol i gyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys data rhifiadol, tablau, graffiau a diagramau ynghyd â thrin a chreu data a gwybodaeth. Yn drydydd, cymhwyso adnoddau sy'n creu, rhannu neu gyfnewid gwybodaeth neu'n cefnogi cydweithrediad a dysgu. Dylai'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol fod yn amlwg yn y dystiolaeth.

Er mwyn cyrraedd y bandiau gradd uwch, dylai ymgeiswyr fod yn ceisio cynhyrchu ymatebion wedi'u strwythuro'n dda i bob tasg sydd hefyd yn dangos technegau cyflwyno priodol yn cynnwys defnydd effeithiol o dablau, graffiau a diagramau. Roedd diffyg nodweddion yn atebion rhai ymgeiswyr fel y canlynol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr) penawdau, penawdau ochr, rhifau tudalen, a defnydd anghyson o ffontiau a diagramau/graffiau heb allwedd.

Mewn rhai achosion, mae ymgeiswyr yn dal i lwytho nifer o ffeiliau i fyny ar gyfer pob tasg. Rhaid osgoi hyn gyda chyflwyniadau yn y dyfodol.

Deilliant Dysgu 5 – Gallu cymryd rhan mewn Her Menter a Chyflogadwyedd

Roedd yn dda gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn amlwg wedi cymryd diddordeb yn yr Her hon ac wedi cyflwyno canlyniadau effeithiol ar gyfer y Cynnig a Chyflwyniad Arloesi a'r Cyflwyniad Myfyrdod Personol. Gall cyflwyniadau PowerPoint fod yn fwy creadigol a rhaid atgoffa ymgeiswyr i gynnwys nodiadau araith clir a thrylwyr yn eu tystiolaeth.

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'n braf gweld parhad yn y patrwm o ymatebion safonol a phriodol yn gyson i'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang Uwch.

Deilliant Dysgu 1 – Gallu cymhwyso sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

Roedd ymgeiswyr yn gallu dewis ffynonellau eilaidd cymhleth a pherthnasol er mwyn ysgrifennu eu Safbwynt Personol yn hyderus, gan ymgorffori amrywiaeth o ffactorau PESTLE. Dulliau anghywir o ymdrin â'r dasg hon oedd y prif reswm dros dangyflawni, lle'r oedd ymgeiswyr naill ai wedi cynnwys datrysiadau neu wedi trafod codi ymwybyddiaeth.

Ar y cyfan, bu datblygiad sylweddol yn sgiliau'r dysgwyr o ran gwerthuso hygredd ffynonellau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi sylw i bob maes o'r Deilliant Dysgu ac yn trafod pob un o'r nodweddion yn feirniadol. Roedd rhai achosion o or-ddyfarnu'r elfen hon pan oedd Ymgeiswyr wedi defnyddio system sgorio braidd yn fymrwyl neu wedi gwneud sylwadau generig. Yn ogystal, mae tuedd fach o hyd i werthuso ffynonellau mewn dogfen ar wahân a pheidio â'u cynnwys yn y cyfrif geiriau ar gyfer Tasg 1.

Roedd y gwaith o asesu sgiliau datrys problemau yn canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r atebion dewisol. Dylai'r dystiolaeth ategol sy'n dangos y broses o wneud penderfyniadau gynnwys cyfiawnhad o ddewisiadau i sicrhau bod yr elfen hon yn cael ei gwobrwyo. Mae hwn yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach o hyd mewn llawer o ganolfannau.

Deilliant Dysgu 2 – Gallu cymhwyso Creadigrwydd ac Arloesedd

Ar draws llawer o ganolfannau, roedd tystiolaeth glir o greadigrwydd ac arloesedd a gwnaed gwelliannau yn y Deilliant Dysgu hwn. Gwelwyd y dull mwyaf llwyddiannus pan oedd dysgwyr yn creu amrywiaeth o atebion arloesol, gyda digon o fanylion i'w cefnogi. Roedd y manylion hyn yn aml yn dangos bod yr ymgeisydd yn wirioneddol wedi meddwl ynghylch yr ateb arfaethedig, ac yn arwain at werthusiad mwy manwl a beirniadol o gryfderau a gwendidau'r ymgeisydd. Fodd bynnag, y Deilliant Dysgu hwn yw'r mwyaf tebygol o hyd o gael ei ddyfarnu'n rhy hael pan fo amrywiaeth gyfyngedig o atebion annatblygedig.

Pan oedd ymgeiswyr yn trafod atebion o fewn eu cyfraniad Cynhadledd Fyd-eang, yn aml roedd diffyg manylder a datblygiad. Rhaid i'r broses hon fod yn rhan o'r paratoi a dylai'r ateb a ddewisir fod yr un a gynigir yn y Gynhadledd. Mae'r dull hwn o weithredu yn galluogi Ymgeiswyr i ennill marciau uwch ar gyfer DD3 (yn ogystal â DD1) gan fod rhethreg uchel a pherswâd yn aml yn gysylltiedig.

Deilliant Dysgu 3 – Gallu cymhwyso Llythrennedd

Yn gyffredinol, cynhyrchodd ymgeiswyr waith o ansawdd uchel ac roeddent yn gallu cyfathrebu'n rhugl ac yn gywir. Roedd Safbwyntiau Personol yn dangos dadansoddiad a chyfosod ardderchog, ac yn mynd ymlaen i gyflwyno tystiolaeth argyhoeddiadol i gytuno â'r farn a fynegwyd. Mae cyflawniad yn y Deilliant Dysgu hwn yn parhau i wella a chael ei asesu'n gywir gan Ganolfannau.

Mae canolfannau hefyd yn dangos tystiolaeth fwy clir o gyflawni'r Deilliant Dysgu hwn yn Nhasg 2 gyda nodiadau siarad cynhwysfawr a thystiolaeth o sesiwn holi ac ateb.

Mae rhai anghysondebau sylweddol yn parhau i fod o ran cywirdeb a rhuglder rhwng Tasg 1 a Thasg 3. Rhaid i ganolfannau fod yn ymwybodol y caiff llythrennedd ei asesu ar draws pob un o'r tair tasg, ac felly rhaid i ymgeiswyr gymryd gofal dros gywirdeb ac eglurder eu gwaith drwy gydol yr Her.

Unwaith eto, yn eu Hadolygiad Personol, nid oedd ymgeiswyr yn myfyrio'n fanwl ar eu datblygiad o'r sgîl hwn, a dylid ystyried hyn ar gyfer carfanau yn y dyfodol.

Deilliant Dysgu 4 – Deall y materion sy'n gysylltiedig â Her Ddinasyddiaeth Fyd-eang

Roedd yn eithaf amlwg bod ymgeiswyr wedi deall yr Her a'u bod wedi ymgysylltu o ddifrif â'r mater, gan ddangos awydd i weithredu yn ei gylch.

Roedd ymdrin â'r tasgau yn unol â gofynion y Fanyleb a'r Llawlyfr Cyflwyno yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu dangos eu dealltwriaeth a chyrraedd eu potensial o ran marc. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y Canolfannau mwyaf, mae hyn yn dod yn fwy safonol.

Her y Gymuned

Deilliant Dysgu 1 – Gallu cymhwyso Cynllunio a Threfnu

Gellir dangos tystiolaeth o gynllunio a threfnu ar draws pob tasg Her y Gymuned.

O ran y Cynnig, roedd y dystiolaeth yn dangos bod yr ymgeiswyr yn gallu defnyddio strwythur clir ar y cyfan, gydag ymchwil i'r grwpiau cymunedol a'r effeithiau posibl ar y gymuned yn arbennig o gryf. Mewn rhai achosion, defnyddiodd y dysgwyr mewn carfan yr un is-benawdau yn eu gwaith, gan eu dilyn yn gaeth. Atgoffir canolfannau bod Tasg 1 i'w chwblhau fel asesiad dan reolaeth ac felly ni ddylai gwaith ymgeiswyr ddilyn yr un fformat. Dylid annog ymgeiswyr i ysgrifennu heb ddibynnu cymaint ar gyfarwyddyd, sy'n briodol i'r lefel hon.

Mae gosod nodau ac amcanion i'r unigolyn ei hun ac ar gyfer y gweithgaredd cymunedol yn elfen hanfodol o'r Cynnig. Dylid annog ymgeiswyr hefyd i osod is-dargedau er mwyn dangos eu sgiliau cynllunio a threfnu yn llawn. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i fonitro eu cynnydd wrth wneud y gweithgaredd. Dylid annog ymgeiswyr hefyd i osod targedau CAMPUS personol wrth gynllunio pob elfen o'u gweithgaredd. Mewn rhai achosion, nid oedd yr ymgeiswyr yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng nod ac amcan, ac nid oedd y nodau ac amcanion yn realistig ychwaith. Dylai Canolfannau ganolbwyntio ar hyn. Os gall ymgeisydd fod yn gywir ac yn realistig gyda'i nodau a'i amcanion, yna bydd hyn yn darparu strwythur a chanllaw clir ar gyfer gweddill y gwaith o gynllunio a threfnu'r Cynnig gweithgaredd cymunedol a'r Cyflwyniad Myfyrdod Personol dilynol.

Ceir diffyg manylion yng ngwaith cynllunio'r gweithgareddau mewn rhai achosion, ac mae hwn yn faes i'w ddatblygu. Dylid annog ymgeiswyr i ystyried nodi a neilltuo adnoddau i weithgareddau, ynghyd ag ystyriaethau risg. Dylid annog ymgeiswyr hefyd i ddefnyddio siartiau Gantt a rhaglenni digidol eraill fel dull rheoli projectau.

O ran y Cyflwyniadau Myfyrdod Personol, gwnaeth rhai ymgeiswyr ddim mwy nag ailadrodd cynnwys eu Cynnig. Yn hytrach, dylai ymgeiswyr adlewyrchu eu cyfraniad personol i'r broses gynllunio a threfnu.

Deilliant Dysgu 2 – Deall Effeithiolrwydd Personol

Yn y gyfres hon, dangosodd bron pob un o'r ymgeiswyr allu realistig i ddefnyddio archwiliadau sgiliau a dadansoddi'r canlyniadau. Pan roedd hyn wedi'i wneud yn arbennig o dda, gwnaeth ymgeiswyr gysylltiadau clir rhwng y Cynnig ac esboniad o'r modd y byddai eu sgiliau personol yn cael effaith ar y gweithgaredd cymunedol. Atgoffir canolfannau y dylid dadansoddi'r archwiliad o sgiliau yn Nhasg 1 cyn penderfynu ar weithgaredd cymunedol priodol. **Nid oes angen** copiâu o archwiliadau sgiliau gan fod y ffocws ar sut mae'r ymgeiswyr yn dadansoddi'r canlyniadau a pha mor effeithiol yw'r broses o ddefnyddio, gwella a datblygu'r sgiliau a nodwyd yn eu barn nhw yn ystod y gweithgaredd cymunedol.

Nid oedd rhai ymgeiswyr yn rhoi tystiolaeth weledol nac ysgrifenedig glir ohonynt yn bod yn effeithiol yn bersonol wrth gwblhau'r gweithgareddau. Mae'n hollbwysig bod pob ymgeisydd yn casglu amrywiaeth o dystiolaeth i gwblhau'r gweithgaredd i gyrraedd y bandiau uwch. Roedd llawer o'r ymgeiswyr llwyddiannus wedi cynnwys lluniau wedi'u hanodi, holiaduron llais disgyblion/myfyrwyr, adborth gan randdeiliaid eraill a/neu ddyddiaduron /llyfr log fel tystiolaeth ategol o'u heffeithiolrwydd personol yn ogystal ag effaith y gweithgaredd wrth roi sylw i'w bwmpas, yn cynnwys y nodau a'r amcanion cychwynnol.

Roedd rhai datganiadau cadarnhau ar goll o waith ymgeiswyr. Mae gofyn i bob ymgeisydd ddarparu Datganiadau Cadarnhau ac maent yn hanfodol ar gyfer asesu. Dylai'r Datganiad Cadarnhau gynnwys sylwadau ar sut mae'r dysgwr wedi gwneud; gallai gael ei gwblhau gan aelod o staff neu rywun o fewn y gymuned y mae'r ymgeisydd wedi gweithio ynddi. Rhaid i'r Datganiad Cadarnhau hefyd ddarparu tystiolaeth a dilysu bod y dysgwr wedi cwblhau 30 awr o gyfranogiad gweithgar a phwrpasol wrth gwblhau'r gweithgaredd cymunedol.

Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu darparu myfyrdodau sylfaenol ar gryfderau a gwendidau eu heffeithiolrwydd personol, ond wrth weithio fel tîm, nid oeddent yn myfyrio ar sgiliau tîm weithiau. Dylent hefyd ystyried y manteision personol maen nhw wedi'u profi o ganlyniad i gymryd rhan yn y gweithgaredd. Mae hwn yn faes i'w ddatblygu ar gyfer cyflwyniadau'r dyfodol.

Deilliant Dysgu 3 – Gallu cymryd rhan yn Her y Gymuned

Atgoffir canolfannau y dylai tystiolaeth ymgeiswyr gynnwys y canlynol yn unig:

1. Cynnig a ddylai fod ar ffurf **un ddogfen gryno**
2. Datganiad Cadarnhau a thystiolaeth ategol o gyflawni'r gweithgaredd drwy gydol y 30 awr
3. Cyflwyniad myfyriol personol gyda nodiadau araith

Yn gyffredinol, roedd y Cynigion a gwblhawyd gan bob dysgwr yn gredadwy. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod gweithgareddau cymunedol arfaethedig yn briodol i lefel y dysgwyr, gan gynnwys eu galluogi i gynllunio, trefnu a monitro tasgau ac is-dasgau yn iawn.

Roedd yn amlwg bod bron pob ymgeisydd wedi deall yr her ac wedi cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r diffyg tystiolaeth yn faes i'w ddatrys o hyd ar gyfer cyflwyniadau'r dyfodol. Anogir ymgeiswyr i gasglu cymaint o dystiolaeth ategol ag sy'n bosibl i gefnogi eu gweithgaredd cymunedol, gan gasglu sampl o'u tystiolaeth yn effeithiol er mwyn dangos yn iawn y gwaith cynllunio a threfnu, effeithiolrwydd personol ac effaith gyffredinol y gweithgaredd.

Mewn llawer o achosion, y Datganiad Cadarnhau oedd yr unig dystiolaeth a roddwyd, ac nid oedd pob Datganiad Cadarnhau y Gymuned wedi'u llenwi'n gyfan gwbl gyda nodiadau yn cefnogi lefel y cyfraniad at yr Her.

Yn gyffredinol, mae'r Cyflwyniadau Myfyrdod Personol yn faes arall i Ganolfannau ganolbwyntio arno. Mae'n arfer da i'r ymgeiswyr ystyried a ydynt wedi cyflawni eu nodau a'u hamcanion cychwynnol, a gyda thystiolaeth ategol, amlinellu effaith y gweithgaredd cymunedol.

Atgoffir canolfannau hefyd bod rhaid i'r Cyflwyniad Myfyrdod Personol bara o leiaf 10 munud ac y dylai Tasg 3 gynnwys copi o'r cyflwyniad gyda nodiadau'r siaradwr.